NSPCC

# Taflen Wybodaeth i Gymryd Rhan mewn Cyfweliad

Helo ’na!

Diolch i chi am gymryd rhan yn ein harolwg blaenorol ac am nodi eich diddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweliad hwn. Mae gennym ddiddordeb mewn cyfweld pobl ifanc LHDTC+ (rhwng 16-19 oed) yn y DU am eu profiadau o bwysau neu flacmel ar-lein.

Bydd y daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion i chi am y cyfweliadau a’n hymchwil er mwyn i chi allu penderfynu a ydych chi’n dal yn dymuno cymryd rhan. Mae’n ateb y rhan fwyaf o gwestiynau y gallai fod gennych am y gwaith ymchwil. Gallwch hefyd gysylltu â’r tîm ymchwil; mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Beth yw pwysau neu flacmel ar-lein?

Efallai y byddwch yn cofio mai pwysau neu flacmel ar-lein yw pan fydd rhywun yn ceisio dylanwadu ar rywun arall, neu roi pwysau arno, drwy ddweud y bydd yn rhannu pethau preifat fel lluniau, fideos, negeseuon neu wybodaeth bersonol (fel rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd neu berthnasoedd rhywun, yn enwedig os nad yw wedi rhannu’r pethau hyn â phobl eraill).

## Pam rydym yn ymgymryd â’r astudiaeth hon?

Er bod ein harolwg wedi datgelu gwybodaeth dda am sut mae pobl ifanc LHDTC+ yn cael profiad o flacmel ar-lein, rydym yn awyddus i archwilio'r pwnc hwn ymhellach. Mae’r cyfweliadau’n ein galluogi i wneud hynny.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei wneud gan ymchwilwyr LHDTC+ o Brifysgol Birmingham a Phrifysgol Nottingham Trent, mewn partneriaeth â'r NSPCC, sef elusen yn y DU sydd wedi ymrwymo i amddiffyn plant a phobl ifanc ac atal camdriniaeth.

Mae pobl ifanc LHDTC+ wedi helpu i ddylunio'r cwestiynau a ofynnir yn ystod y cyfweliad hwn a byddant hefyd yn helpu i greu adnoddau hygyrch o'r canfyddiadau i'w rhannu â chi a chydag oedolion neu weithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am eich cefnogi.

## Beth a gynhwysir yn y cyfweliadau?

Os penderfynwch gymryd rhan, byddwn yn gofyn ychydig o gwestiynau amdanoch chi eich hun a byddwn hefyd yn cyflwyno ein hunain. Yna byddwn yn gofyn cwestiynau amrywiol am bwysau neu flacmel ar-lein a'ch profiadau ohono. Bydd rhai cwestiynau'n ymwneud â'ch profiad penodol, megis yr hyn yr oedd yr unigolyn wedi’i fynnu a sut y gwnaethoch chi ymateb.

Byddwn yn gwneud recordiad sain a fideo o'r cyfweliad. Ar ôl y cyfweliad, byddwn yn creu fersiwn ysgrifenedig o'r hyn a ddywedoch ac yna'n dinistrio'r recordiad sain a fideo.

Os oes gennych unrhyw ***anghenion hygyrchedd***, neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch i gymryd rhan yn yr ymchwil, cysylltwch â ni ac fe wnawn ein gorau i helpu. Rhowch wybod os hoffech i ni wneud unrhyw drefniadau a fyddai'n ei gwneud hi'n fwy cyfforddus i chi gymryd rhan. Gall hyn hefyd gynnwys pethau fel cynnal y cyfweliad â'r camerâu wedi'u diffodd.

Dylai'r cyfweliad bara tuag ***awr.***

### Oes rhaid i mi gymryd rhan? Alla i newid fy meddwl?

Chi sy'n penderfynu a ydych chi am gymryd rhan. Gallwch stopio ar unrhyw adeg. Nid oes rhaid i chi ateb bob cwestiwn. Gallwch anwybyddu cwestiwn neu ddod yn ôl ato yn nes ymlaen.

Yn ystod y cyfweliad, gallwch ofyn am seibiant neu ddod ag ef i ben pryd bynnag y dymunwch. Os byddwch chi'n penderfynu stopio yn fuan ac yn dweud wrthym nad ydych chi eisiau parhau, byddwn yn dileu'r recordiad ar unwaith.

Ar ddiwedd y cyfweliad, bydd y cyfwelydd yn gofyn a ydych chi'n hapus i ni ddefnyddio'r hyn a ddywedoch yn y gwaith ymchwil.

### A fydd fy atebion yn breifat?

Rydym yn casglu eich atebion am fod hynny'n ein helpu i gael gwybod beth sy'n digwydd mewn gwirionedd—ac rydym yn gwneud hynny o dan rywbeth sy'n cael ei alw yn **"fuddiannau dilys"**. Mae hynny'n golygu: Rydym yn defnyddio eich data er mwyn helpu i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, ac rydym yn gwneud hynny mewn ffordd deg, barchus a diogel. Dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddeall y mater ac i wella pethau y byddwn ni'n ei chasglu. Ni fyddwn yn defnyddio eich data i werthu unrhyw beth i chi nac i anfon hysbysebion atoch. Ni fyddwn ychwaith yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw un y tu allan i'r tîm ymchwil—oni bai bod pryderon o ddifrif am ddiogelu neu fod gennym gytundebau priodol ar waith (fel contractau swyddogol sy'n dilyn rheolau diogelu data, sef GDPR) i wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn aros yn ddiogel.

Bydd eich atebion yn cael eu gwirio gan yr ymchwilwyr i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un mewn perygl neu'n anniogel. Os byddwch chi'n dweud rhywbeth sy'n dangos bod rhywun mewn perygl difrifol a'ch bod yn cynnwys enw neu fanylion cyswllt, efallai y bydd yr ymchwilwyr yn camu i mewn i helpu—megis drwy ddweud wrth yr heddlu neu wasanaethau plant. Dim ond os oes ganddynt ddigon o wybodaeth i'ch cadw chi neu'r unigolyn hwnnw'n ddiogel y byddent yn gwneud hyn.

Bydd eich atebion yn cael eu cadw ar systemau diogel sydd wedi'u diogelu â chyfrinair ym Mhrifysgol Birmingham. Dim ond y tîm ymchwil fydd yn gweld eich data.

Os byddwch chi'n cymryd rhan mewn cyfweliad, bydd cwmni trawsgrifio dibynadwy (Transcript Divas) yn teipio'r recordiad. Mae'n dilyn rheolau llym ynghylch preifatrwydd a bydd yn dileu'r sain a'r fideo ar ôl eu teipio. Dim ond y tîm ymchwil fydd yn gweld y fersiwn lawn sydd wedi'i theipio.

Byddwn yn dileu unrhyw beth a allai ddatgelu pwy ydych chi (fel eich enw neu enwau lleoedd). Er enghraifft, byddai "Nottingham" yn cael ei newid i "dinas yn Nwyrain Canolbarth Lloegr." Byddwn hefyd yn rhoi enw gwahanol i chi yn ein nodiadau, neu gallwch ddewis enw eich hun.

Byddwn yn cadw'r data'n ddiogel am hyd at bum mlynedd. Efallai y byddwn yn rhannu'r canlyniadau mewn adroddiadau, papurau, neu mewn cynadleddau, ac weithiau byddwn yn cynnwys dyfyniadau byr yn eich geiriau eich hun, ond ni fydd modd i unrhyw un allu dweud pwy ydych chi.

Bydd eich ffurflen ganiatâd (gyda'ch enw go iawn) yn cael ei chadw ar wahân i'ch data er mwyn sicrhau nad oes modd eu cysylltu.

### A oes tâl am gymryd rhan?

Byddwch yn cael taleb gwerth £25 am eich amser. Ond drwy rannu eich profiadau, rydych chi'n helpu ymchwilwyr a sefydliadau fel yr NSPCC i ddeall beth sy'n digwydd ar-lein mewn gwirionedd a sut y gallwn wneud pethau'n ddiogel ac yn fwy cefnogol i bobl ifanc LHDTC+ fel chi.

Ar ôl ei gwblhau, bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn ar gael ar wefan y prosiect a hefyd ar wefan NSPCC learning**.**

### Eich cysur a'ch diogelwch

Os ydych chi'n teimlo'n anghyfforddus gydag unrhyw gwestiynau a ofynnir yn ystod y cyfweliad, nid oes rhaid i chi eu hateb. Nid oes rhaid i chi roi rheswm, dim ond dweud wrthym eich bod eisiau symud ymlaen yn syth i'r cwestiwn nesaf.

Bydd yr ymchwilydd yn gwneud yn siŵr eich bod yn iawn yn ystod y cyfweliad. Os yw'n ymddangos fel petaech yn bryderus neu'n llawn gofid, bydd yn gofyn a hoffech chi gael seibiant neu stopio — ond ni fydd yn dod â'r cyfweliad i ben oni bai eich bod chi'n gofyn iddo wneud hynny.

Byddwn hefyd yn rhannu manylion **gwasanaethau cymorth sy'n ystyriol o bobl ifanc a phobl LHDTC+** â chi, ni waeth beth rydych chi'n dewis ei rannu.

Mae popeth a wnawn wedi'i gynllunio i'ch cefnogi a'ch cadw'n ddiogel.

**Beth os bydd gen i gwestiynau neu bryderon?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cyfweliad, gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm ymchwil. Mae'r ddau ymchwilydd yn ystyried eu hunain yn LHDTC+, yn cadarnhau trawsrywedd, ac mae ganddynt brofiad o weithio ar bynciau sy'n ymwneud â LHDTC+:

- **Dr Willem Stander (ef/ei)** yn w.stander@bham.ac.uk
- **Dr Liam Cahill (ef/ei)** yn liam.cahill@ntu.ac.uk

Y cynorthwyydd ymchwil fydd yn cynnal y cyfweliadau, ac mae hefyd yn aelod o'r gymuned LHDTC+ ac yn ymchwilydd yn y maes: **Chase Staras (ef/eu)** yn chase.staras@ntu.ac.uk

Os oes gennych chi gŵyn am yr ymchwil, cysylltwch â:

- Mrs Sue Cottam (Rheolwr Moeseg) yn s.l.cottam@bham.ac.uk
- Swyddog Diogelu Data Prifysgol Birmingham: dataprotection@contacts.bham.ac.uk
- Gallwch hefyd roi gwybod i'r NSPCC. Gallwch anfon e-bost at researchcomplaints@nspcc.org.uk neu ffonio tîm Gofal Cefnogaeth yr NSPCC ar 020 7825 2505.